**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11 Mawrth 2004 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.20pm |
| **Lleoliad:** | Gwesty'r Elephant and Castle, Y Drenewydd |

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | **Yn bresennol** |
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| **Tystion** | |
| Allison Williams | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru |
| Jo Davies | Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol, Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru |
| Martin Turner | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent |
| Tracy Myhill | Cyfarwyddwr Personél, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent |
| **Swyddogion** | |
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Lew Hughes | Dirprwy Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Matthew Mortlock | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ceri Thomas | Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad |
| **Yr Ysgrifenyddiaeth** | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau buddiant.**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, y tystion a'r cyhoedd i'r cyfarfod, sef cyfarfod cyntaf y

Pwyllgor Archwilio y tu allan i Gaerdydd.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Leighton Andrews

**Eitem 2: Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru**

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth Allison Williams, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru, Jo Williams, Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol, Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru, Martin Turner, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent a Tracy Myhill, Cyfarwyddwr Personél, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent mewn perthynas â'r adroddiad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 'Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru' gan y Swyddfa Archwilo Genedlaethol

2.2 Bydd trawsgrifiad gair-am-air yn cael ei amgáu yn Atodiad 1 o'r cofnodion hyn.

**Gweithredu**

Bydd Martin Turner ac Allison Williams yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am faint o oriau goramser a weithiwyd gan staff wrth weithio yn lle'r rhai oedd ar absenoldeb salwch.

Bydd Adran GIG Cymru yn rhoi manylion i'r Pwyllgor ynghylch sut y bydd Cofnod Electronig o’r Staff yn gwella'r wybodaeth sydd ar gael o ran cost absenoldeb salwch, gan gynnwys y gost o gael staff cyflenwi.

Bydd Martin Turner ac Allison Williams yn rhoi manylion i'r Pwyllgor ynghylch y nifer a'r canran o'r staff yn eu Hymddiriedolaethau sy'n enwebu eu hunain ar gyfer ymddeol oherwydd salwch, y nifer a'r canran a enwebwyd gan eu Hymddiriedolaethau a'r canran o'r ceisiadau hyn a dderbyniwyd gan yr Asiantaeth Bensiynau (ffigurau ar gyfer 2002-03).

***Cymerodd y Pwyllgor egwyl rhwng 11.58am a 12.13pm***

**Eitem 3: Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor Archwilio 'Cyllid GIG Cymru 2003’**

3.1 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei fod ar hyn o bryd yn paratoi ei adroddiad ar ‘Gyllid GIG Cymru’ ar gyfer 2004, a fyddai'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y materion a nodwyd yn argymhellion y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad maes o law.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w adroddiad.

**Eitem 4: Gohebiaeth oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch amseriad ei raglen**

**Gwerth am Arian ar gyfer 2004-05**

4.1 Nododd y Pwyllgor yr amserlen a gynlluniwyd ar gyfer rhaglen Gwerth am Arian Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2004-05.

**Eitem 5: Gohebiaeth oddi wrth Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ar gaffael yn y sector addysg bellach yng Nghymru a rheoli ystadau addysg bellach, a chyngor Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr ohebiaeth**

5.1 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru bod y Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Y Cyngor) wedi llwyddo i sicrhau arbedion ariannol. Byddai'n parhau i fonitro llwyddiant ac yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor maes o law. O ran reoli'r ystad addysg bellach, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod angen i'r sefydliadau addysg bellach a'r cyngor wneud mwy o waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch anabledd. Dywedodd mai'r rheswm pennaf am beidio â chydymffurfio oedd cyfyngiadau ariannol, yn hytrach nag amharodrwydd gan y sefydliadau.

5.2 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i'r mater ac yn trafod a Mr Isherwood y wybodaeth am y pwnc a dderbyniodd oddi wrth ei gysylltiadau â rhai o'r sefydliadau addysg bellach penodol. Byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn paratoi llythyr drafft y gallai'r Pwyllgor ystyried ei anfon at Weinidogion a chadeiryddion y pwyllgorau pwnc perthnasol.

**Gweithredu**

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidogion dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ac Addysg a Dysgu Gydol Oes, a chadeiryddion y pwyllgorau hynny yn gofyn iddynt edrych yn fanwl ar y mater a thynnu sylw at y cyfyngiadau ariannol sy'n eu hatal rhag rhoi'r ddeddfwriaeth ynghylch anabledd ar waith.

**Eitem 6: Nodyn oddi wrth Gyfarwyddiaeth y GIG ar hynt y gwaith o werthu ystadau sydd dros ben a chyngor Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y nodyn**

6.1 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai 27 o adeiladau yn weddill ar yr ystad erbyn diwedd 2004-05, a byddai rhai ohonynt yn cael eu trosglwyddo i'r cyrff iechyd er mwyn iddynt hwy eu defnyddio ym maes iechyd. Yn ogystal, o ran safleoedd anaddas neu safleoedd nad oeddent yn cael eu defnyddio digon, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol bod £2.7 miliwn wedi ei sicrhau yn ystod 2002-03 a disgwylir £23 miliwn yn ystod 2003-04 a 2004-05. Dywedodd y byddai'n parhau i fonitro llwyddiant y GIG o ran cael gwared ar safleoedd sy'n weddill a sydd dros ben.

6.2 Nododd y Pwyllgor lwyddiant GIG Cymru o ran cael gwared ar ystadau dros ben.

**Eitem 7: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror.

**Eitem 8: SESIWN PREIFAT - Adroddiad drafft y Pwyllgor Archwilio ar 'Daliadau hwyr i Ffermwyr yng Nghymru'**

8.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21 (vi).

8.2 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad drafft a'i gymeradwyo.